Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru
Newborn Bloodspot Screening Wales

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Rhaglen sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig

## Canlyniad sgrinio eich babi

## Amheuir anhwylder y crymangelloedd (SCD)

## Canlyniad sgrinio eich babi

Mae canlyniad prawf gwaed sgrinio ‘pigo sawdl’ eich babi yn awgrymu y gallai fod ganddo anhwylder y crymangelloedd. Mae angen profion pellach ar eich babi nawr i weld a oes ganddo anhwylder y crymangelloedd ai peidio.

Mae'r daflen hon yn rhoi rhywfaint o wybodaeth i chi am anhwylderau'r crymangelloedd ac yn esbonio beth sy'n digwydd nesaf.

## Beth yw anhwylderau'r crymangelloedd?

Mae anhwylderau'r crymangelloedd yn gyflyrau lle gall celloedd coch y gwaed fod ar ffurf cryman neu leuad gilgant. Mae celloedd coch y gwaed yn cynnwys haemoglobin, sy'n gyfrifol am gario ocsigen o'r ysgyfaint i'r meinweoedd yn y corff. Gydag anhwylderau'r crymangelloedd, mae celloedd coch y gwaed yn cynnwys haemoglobin S yn hytrach na'r haemoglobin A arferol. Mae hyn yn achosi i gelloedd coch y gwaed newid siâp pan fydd y gell wedi rhyddhau ocsigen. Nid yw celloedd coch siâp cryman yn y gwaed mor hyblyg â chelloedd siâp arferol yn y gwaed a gallant fynd yn sownd yn y pibellau gwaed bach. Gall hyn achosi poen, anemia, niwed i feinwe a haint.

Yn ystod y tri mis i chwe mis cyntaf o fywyd, efallai na fydd eich plentyn yn dangos arwyddion o anhwylder y crymangelloedd oherwydd bod lefel uchel o haemoglobin babi (haemoglobin F) ar adeg geni. Mae haemoglobin F yn atal celloedd coch y gwaed rhag newid siâp. Dros flwyddyn gyntaf bywyd mae'r lefelau haemoglobin F yn lleihau, ond bydd rhai plant yn parhau i greu lefelau uwch o haemoglobin F hyd yn oed pan fyddant yn oedolion.

Mae sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig yn golygu y gellir nodi babanod ag SCD a rhoi triniaeth gynnar iddynt cyn bod problemau'n debygol o ddatblygu.



## Triniaeth

Ar gyfer y rhan fwyaf o fabanod ag anhwylder y crymangelloedd wedi'i gadarnhau, mae'r driniaeth yn cynnwys monitro iechyd, meddyginiaeth, addysg a chymorth drwy gydol eu hoes i osgoi ac atal cymhlethdodau anhwylder y crymangelloedd gymaint â phosibl.  Mae hyn yn galluogi plant i fyw bywyd mor egnïol, iach a bodlon â phosibl. Bydd plant ag anhwylder y crymangelloedd o dan ofal tîm meddygol arbenigol.

Mae'r driniaeth fel arfer gyda gwrthfiotigau rheolaidd i atal haint, ac mae'n bwysig bod eich plentyn yn cael ei frechiadau arferol.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwch yn cael apwyntiad i weld tîm meddygol arbenigol a fydd yn:

- trafod canlyniad y prawf sgrinio gyda chi
- trefnu i'ch babi gael prawf gwaed i gadarnhau'r diagnosis
- eich cefnogi chi nawr ac yn y dyfodol os bydd eich babi yn cael diagnosis wedi'i gadarnhau o anhwylder y crymangelloedd
- rhoi gwybod i'ch meddyg teulu am ganlyniadau profion eich babi
- rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i chi am anhwylderau'r crymangelloedd i'w rhannu â'ch teulu a gweithwyr meddygol proffesiynol os oes angen gofal meddygol ar eich babi, ac
- ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych.

## Ateb eich cwestiynau

**Beth sy'n digwydd os bydd fy mabi'n mynd yn sâl cyn ein hapwyntiad gyda'r tîm meddygol arbenigol?**

Os bydd eich babi'n mynd yn sâl dylech gael cyngor meddygol yn gyflym. Mae’n bwysig bod y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol y byddwch yn cysylltu ag ef yn ymwybodol o'r canlyniad sgrinio hwn ar gyfer anhwylderau'r crymangelloedd ac awgrymwn eich bod yn dangos y daflen hon iddynt.

**Pam mae gan rai plant anhwylderau'r crymangelloedd?**

Mae anhwylderau'r crymangelloedd yn gyflyrau a etifeddir. Nid ydynt yn cael eu hachosi gan unrhyw beth a ddigwyddodd yn ystod beichiogrwydd.



Mae gan fabi ddau gopi o'r genyn haemoglobin  Mewn babi sy'n cael ei eni ag anhwylder y crymangelloedd, nid yw'r naill gopi o'r genynnau haemoglobin yn gweithio'n gywir oherwydd bod newid yn y ddau enyn (a elwir hefyd yn

‘amrywolyn genynnau’). Mae'r newid hwn yn effeithio ar strwythur haemoglobin.

**Sut beth yw bywyd i blant ag anhwylderau'r crymangelloedd?**

Mae anhwylderau'r crymangelloedd yn amrywio'n fawr o ran pa mor ddifrifol ydynt ac mae'n anodd rhagweld sut y bydd yr anhwylder yn effeithio ar unigolyn. Gellir gwella ansawdd bywyd os bydd y cyflwr yn cael ei nodi'n gynnar a'i drin â gwrthfiotigau. Mae addysg a chymorth i'r teulu a mynediad i ofal gan dîm meddygol arbenigol hefyd yn helpu i wella ansawdd bywyd.

**A fydd gan aelodau eraill o'r teulu anhwylder y crymangelloedd hefyd?**

Os cadarnheir bod gan fabi anhwylder y crymangelloedd, mae'r risg i rieni o gael plentyn arall ag anhwylder y crymangelloedd yn 1 mewn 4 (25%) i bob plentyn. Gellir atgyfeirio rhieni neu aelodau eraill o'r teulu i wasanaethau genetig arbenigol i gael rhagor o wybodaeth a chyngor os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

## Rhagor o wybodaeth a chymorth

- Gallwch ddod o hyd i'r llyfryn ‘A parent’s guide to managing sickle cell disease’ ar wefan Cymdeithas y Crymangelloedd GIG: www.sicklecellsociety.org/resource/parentsguide/

- Cymdeithas y Crymangelloedd: www.sicklecellsociety.org

- Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru: icc.gig.cymru/sgrinio-smotyn-gwaed-newydd-anedig



## Nodiadau

Gallwch ysgrifennu unrhyw nodiadau yma o drafodaethau gyda'ch gweithwyr iechyd proffesiynol.

## Defnyddio eich gwybodaeth

Er mwyn i ni gysylltu â chi fel rhan o'r rhaglen, bydd [illegible] ymdrin â rhywfaint o'ch gwybodaeth bersonol chi a'ch babi. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch am hyn, gallwch:

- fynd i'r wefan: icc.gig.cymru/defnydd-y-safle/hysbysiad-preifatrwydd

- anfon e-bost PHW.InformationGovernance@wales.nhs.uk, neu
- ffonio 029 2010 4307.

Rydym hefyd yn cadw manylion personol i sicrhau bod safon ein gwasanaeth mor uchel â phosibl. Mae hyn yn cynnwys gwirio cofnodion eich babi os canfyddir bod gan eich babi gyflwr ar ôl cael prawf sgrinio a ddangosodd ganlyniad ‘dim achos a amheuir’.

Dim ond fel ystadegau rydym yn cyhoeddi gwybodaeth ac nid ydym byth yn cyhoeddi manylion personol. Rydym yn trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol i weithwyr iechyd proffesiynol neu sefydliadau y mae ei hangen arnynt, gan gynnwys eich meddyg teulu, ymwelydd iechyd a phediatregydd ymgynghorol. Rhaid i'r gweithwyr proffesiynol hyn ddiogelu'r wybodaeth bersonol yn yr un modd ag y byddwn ni.

Mae ein holl gofnodion papur a chyfrifiadurol yn cael eu storio a'u prosesu'n ddiogel, ac nid oes gan y cyhoedd fynediad atynt.

© Hawlfraint 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cedwir pob hawl. Ni ddylech atgynhyrchu unrhyw ran o’r daflen hon heb ein caniatâd.

Information courtesy of Public Health England.

Fersiwn 3
Chwefror 2024